## DISGRIFIAD SWYDD

**Teitl y Swydd:** **Tiwtor Cyswllt mewn Perfformiad (Pêl-fasged)**

**Ysgol:** **Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**

**Cyflog:** **£45.88 Fesul Sesiwn**

### Disgrifiad o'r Rôl

Mae'r Tiwtor Cyswllt yn addysgu ac yn asesu myfyrwyr naill ai mewn neu Pêl-fasged. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhan o ddarlithoedd ymarferol a gyflwynir ar draws ystod o fodiwlau ymarferol cymhwysol ar y rhaglenni israddedig, Hyfforddi Chwaraeon, Chwaraeon Addysg Gorfforol ac Iechyd, Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon.

### Disgrifiad Rôl:

Bydd deiliad y swydd yn addysgu ac yn arddangos ac yn meddu ar wybodaeth dechnegol a thactegol ardderchog am y gamp berthnasol. Bydd ganddynt ddealltwriaeth sylweddol o natur broffesiynol eu camp ac yn cyfathrebu hyn gydag eglurder, a brwdfrydedd tuag at fyfyrwyr israddedig.

### Prif feysydd cyfrifoldeb

1. Cael a bod yn gyfarwydd â dogfennau cwrs perthnasol sy'n rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud â nodau a gweithrediad y cwrs, gan gynnwys y maes llafur, dulliau asesu, y dulliau addysgu a ffefrir, gwybodaeth sydd ei hangen ar fyfyrwyr, dyddiadau ac amseroedd y cwrs, ac ati.

2. Cysylltu ag aelodau o dîm y rhaglen, fel y bo'n briodol, er mwyn deall gofynion, cydlynu cynlluniau a chamau gweinyddol ac i drafod newidiadau.

3. Paratoi deunydd cwrs effeithiol a fydd yn cyflawni nodau'r cwrs, gan gynnwys gwella'r profiad dysgu trwy ddull myfyriwr-ganolog.

4. Mynychu a darparu sesiynau fel y cytunwyd, darlithio, arwain trafodaethau a darparu arweiniad a chyngor fel arall a hyrwyddo dysgu, yn ôl yr angen.

5. Paratoi a marcio, yn ôl yr angen, unrhyw waith ysgrifenedig cysylltiedig, gwaith stiwdio, gwaith dosbarth a phapurau arholiad, o fewn y gweithdrefnau asesu

priodol.

6. Rhoi adborth adeiladol ac amserol i fyfyrwyr ar eu cynnydd.

7. Cadw cofnodion o'r fath o asesu a phresenoldeb ag sydd eu hangen ar y Brifysgol.

8. Arsylwi amseroedd agor a chau dosbarthiadau yn llym.

9. Sicrhau bod Cyfarwyddwr/Arweinydd y Rhaglen a'r dosbarth yn cael gwybod am eu habsenoldeb, lle nad oes modd osgoi hyn, cyn belled â phosibl.

10. I ddarparu, lle bo hynny'n briodol, cwrs/cynllun gwaith, set o amcanion a rhestrau darllen i fyfyrwyr.

11. Mynychu cyfarfodydd, sesiynau sefydlu a datblygu yn ôl yr angen.

**Hysbysiad Safonol**

**Hysbysiad Safonol Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.**

**Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y maent wedi cael eu penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd pob aelod o staff yn cyfrannu at weledigaeth ac ethos y brifysgol ac yn ymddwyn mewn modd proffesiynol, cwrtais, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr/cwsmeriaid bob amser. Dylai pob aelod o staff roi sylw penodol i'w gyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb, ariannol, amgylcheddol a Chynaliadwyedd, adnoddau dynol ac iechyd a diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

## MANYLEB PERSON

Swydd: Tiwtor Cyswllt Pêl-rwyd / Athletau / Pêl-fasged

Uned/Ysgol: ***Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd***

*__ Allwedd__*
Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
Cyfl/P - Cyflwyniad/Prawf

| FFACTORAU | MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL | EU HASESU GAN | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Ff*** | **C *** | **P*** |
| **Addysg a Chymwysterau Hanfodol** | Gradd anrhydedd da a / neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol | ✓ | | |
| | Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch. | ✓ | | |
| | Cymhwyster Hyfforddi Lefel 2 o leiaf (neu gyfwerth) mewn Pêl-rwyd / Athletau / Pêl-fasged. | ✓ | ✓ | |
| **Addysg a Chymwysterau (Dymunol)** | Gradd Meistr dda a/neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol. | ✓ | | |
| | Doethuriaeth neu brofiad ymchwil cyfatebol. | ✓ | | |
| | Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabod Proffesiynol yr Academi Addysg Uwch. | ✓ | | |
| | Aelodaeth o gorff proffesiynol. | ✓ | | |
| | IAPS & CTS 1af ar gyfer Chwaraeon neu gyfwerth | ✓ | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth (Hanfodol)** | Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol. | ✓ | ✓ | |
| | Gwybodaeth weithredol o Feysydd Pwyslais y Corff Llywodraethu, Canllawiau i Hyfforddwyr, cwricwlwm perthnasol. | ✓ | | |
| | Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). | | ✓ | |
| | Dealltwriaeth gadarn o addysgeg. | | ✓ | |
| | Gwybodaeth dechnegol a thactegol fanwl am y gamp berthnasol (Pêl-rwyd / Athletau /Pêlfasged) | | ✓ | |
| | Y gallu i arddangos mewn amgylchedd ymarferol | | ✓ | |
| **Sgiliau a galluoedd yn ymwneud â’r rôl (Hanfodol)** | Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i gyflawni dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol. | | ✓ | |
| | Y gallu i gynllunio llwythi gwaith. | ✓ | | |
| | Y gallu i adnabod meysydd i'w gwella a defnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella perfformiad. | ✓ | ✓ | |
| | Y gallu i ymgysylltu â systemau electronig a'u defnyddio ar gyfer cyflwyno ac asesu. | | ✓ | |
| | Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amryw o ffyrdd - cyflwyniadau, adroddiadau, deunyddiau dysgu. | ✓ | | |
| | Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol. | ✓ | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Profiad â thâl / di-dâl (Dymunol)** | Profiad o addysgu.<br><br>Profiad o hyfforddi o fewn y gweithgaredd perthnasol.<br><br>Profiad o addysg hyfforddwyr.<br><br>Profiad o berfformiad chwarae'r gorffennol – isafswm y Gynghrair Genedlaethol | ✓<br><br>✓<br><br>✓<br><br>✓ | <br><br>✓<br><br>✓ | |
| **Gofynion eraill (Hanfodol)** | Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd. | | ✓ | |
| **Gofynion eraill (Dymunol)** | | | | |
| **Sgiliau Cymraeg**<br><br>**Gwrando (Dymunol)** | <u>Gwrando, darllen, ysgrifennu, ysgrifennu</u><br><br>**C2 - Prif ddefnyddiwr**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg. | ✓ | ✓ | |